**Fforwm Blaengar Catalonia 10– 11 Gorffennaf 2022 Adroddiad gan Adam Price AS**

Diben yr ymweliad

Cefais wahoddiad i fod yn bresennol yn Fforwm Blaengar cyntaf Catalonia – a chymryd rhan ynddo – sef man cyfarfod ar gyfer pleidiau gwleidyddol blaengar i drafod heriau Ewropeaidd a heriau byd-eang sy’n rhaid i ni ymateb iddyn nhw ar fyrder, a mynd i’r afael â’r cyfryw heriau. Cynhaliwyd y fforwm yn Barcelona ar 10 ac 11 Mehefin 2022. Mae'r fforwm yn cynnig y cyfle i feithrin gwerthoedd cyffredin – gan gynnwys ffeministiaeth, cyfiawnder cymdeithasol, y trawsnewid gwyrdd (neu’r *green transition*), a hawliau dynol a democratiaeth – ledled y byd. Mae’r rhain i gyd yn faterion a godwyd fel bod yn rhai o flaenoriaeth gan Aelodau’r Chweched Senedd – ar draws pob plaid – yn y Llywodraeth ac oddi allan iddi.



Cafodd y fforwm eleni – yn dwyn yr enw *Dim camu’n ôl: Amddiffyn democratiaeth yn yr 21ain ganrif* – ei neilltuo ar gyfer myfyrio ar sut i amddiffyn ein democratiaethau a’r gwerthoedd sylfaenol sy’n eu cefnogi yn wyneb ffenomenau fel dychweliad yr asgell dde eithafol, cynnydd mewn poblyddiaeth (neu *populism*), ffug-wybodaeth a phŵer gwrth-ddemocrataidd.

Er bod trefnwyr y digwyddiad yn talu costau llety, y Senedd wnaeth dalu’r lwfansau teithio yn unol â’r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau, fel y’i nodir gan y Bwrdd Taliadau. Cafodd yr ymweliad ei ddatgan a’i gyhoeddi – drwy Gofrestr Buddiannau’r Aelodau – gyda’r Swyddfa Gyflwyno yn union ar ôl i mi ddychwelyd i Gymru, ac yn unol â rheolau a chanllawiau’r Senedd, mae’r adroddiad dilynol hwn yn amlinellu’n gryno, wybodaeth bellach am y fforwm a’r trafodaethau a gynhaliwyd.

Gweriniaeth Esquerra

Esquerra Republicana oedd yn llywyddu. Mae Esquerra Republicana yn diffinio ei hun fel bod yn adain chwith, gwyrdd a ffeministaidd ac amddiffyn hawl Catalonia i hunanbenderfyniad. Yn hanesyddol, mae'r blaid wedi bod yn amddiffynnwr patrymol o ddemocratiaeth a gweriniaethiaeth. Ar hyn o bryd, Esquerra yw plaid wleidyddol fwyaf blaenllaw Catalonia mewn etholiadau dinesig, rhanbarthol, gwladwriaethol ac Ewropeaidd. At hynny, ers 2021 mae'r blaid wedi meddu ar lywyddiaeth y Generalitat – sef llywodraeth Catalonia – o dan lywyddiaeth Pere Aragonès. Ar lefel Ewropeaidd, mae Esquerra yn aelod o blaid Cynghrair Rhydd Ewrop a Grŵp Senedd Ewrop y Gwyrddion/EFA.

Trafodaethau Fforwm Cyffredinol

Bu bord gron ar ddemocratiaeth ac awdurdodaeth yn trafod ac yn awgrymu atebion o ran sut i amddiffyn ein hunain rhag y cynnydd mewn opsiynau polisi sy'n dwyn awdurdodaeth i gof, a sut y gall pleidiau blaengar gyflwyno atebion ar gyfer amddiffyn gwerthoedd democrataidd.

Bu digwyddiad bord gron arall ar hawliau dynol yn trafod sut y gallwn sicrhau mwy o barch at yr hawliau sylfaenol hyn a chynnig atebion, yn enwedig yn sgil symudiad ffoaduriaid ar draws Ewrop o ganlyniad i wrthdaro yn Wcráin ac mewn mannau eraill ledled y byd.

Gyda diwygio ein democratiaeth yn gadarn ar agenda'r Senedd ar gyfer y blynyddoedd i ddod, rhoddodd y fforwm rhyngwladol hwn gyfle unigryw i ddysgu am obaith y gallwn amddiffyn sefydliadau gwleidyddol – a systemau etholiadol – Cymru rhag bygythiadau ysgeler yn y blynyddoedd i ddod.

*Mwy o ddemocratiaeth a gwell gwybodaeth: sut i wella ansawdd democratiaethau yn wyneb strategaethau camwybodaeth* – Trafodaeth Ford Gron

Roeddwn yn aelod o'r panel ar gyfer digwyddiad bord gron ar ffug-wybodaeth. Roedd y canlynol ymhlith panelwyr eraill:

- Diana Riba, ASE Esquerra Republicana
- Stéphane Bergeron, AS dros Bloc Québécois
- Christian Allard, cyn ASE a chynghorydd SNP ar Gyngor Dinas Aberdeen
- Sonia Galtié, aelod o Gyngor Catalonia y Mudiad Ewropeaidd
- Jordi Vilanova, aelod o Bwyllgor Materion Rhyngwladol Esquerra Republicana




Bu honiadau credadwy iawn o ddefnydd amheus o'r cyfryngau cymdeithasol i ddylanwadu ar etholiadau ar draws gwledydd y Gorllewin. Nid yw lledaenu ffug-wybodaeth na chamwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn rhywbeth y gall Cymru fod yn hunanfodlon yn ei gylch. Llwyddais i hyrwyddo gwaith a wneir yng Nghymru, er enghraifft gwaith gan y Sefydliad Materion Cymreig sydd wedi ystyried sut y gall Cymru arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â chamwybodaeth yn y cyfryngau a'r gymdeithas yn fwy eang.

Bu'r panel yn trafod y mesurau y gall gwladwriaethau a chyrff rhyngwladol eu cymryd i sicrhau rhyddid mynegiant, tra'n diogelu ansawdd y wybodaeth a ddaw i'n rhan. Ymhlith y pynciau eraill a drafodwyd roedd pa fesurau y gellid eu defnyddio i helpu i atal strategaethau ffug-wybodaeth yn ystod ymgyrchoedd etholiadol. At hynny, trafodais fentrau y gellid eu cymryd yng Nghymru a chenhedloedd eraill y DU er mwyn diogelu ein systemau etholiadol ymhellach, yn dilyn Sgandal Cambridge Analytica.